

## SUT Y GALL CYNGOR SIR FYNWY HELPŲ

Mae Cyngor Sir Fynwy yn ymwybodol o'r problemau y gall llifogydd eu hachosi. Mae'r cyngor yn gweithio i sicrhau bod trefniadau ar waith i dderbyn rhybuddion llifogydd, monitro amodau lleol ac ymateb i geisiadau am help gan y gymuned.

### CYN LLIFOGYDD, RYDYM YN:

- Paratoi ar gyfer llifogydd posibl trwy gynllunio, hyfforddiant ac ymarferion.
- Sicrhau bod system ymateb 24 awr ar waith.
- Monitro lleoliadau agored i niwed.
- Ymgynghori â chymunedau mewn ardaloedd allweddol sy'n agored i lifogydd.

### YN YSTOD LLIFOGYDD, RYDYM YN:

- Cysylltu â'r asiantaethau a'r sefydliadau dan sylw.
- Rhoi ein gweithlu ar waith i ymateb i anghenion y gymuned.
- Dosbarthu bagiau tywod ar gais lle bo modd.
- Efallai y bydd modd i ni helpu gyda llety dros dro os nad oes gennych yswiriant wrth i'ch eiddo gael ei atgyweirio. Os ydych chi wedi'ch yswirio, siaradwch â'ch cwmni yswiriant am yr opsiynau sydd ar gael.

### WEDI'R LLIF OGYDD

Cysylltwch â Chyngor Sir Fynwy ar:

**01633 644644** os oes angen help arnoch gyda materion:

- Lechyd yr Amgylchedd
- Priffyrdd a Llifogydd
- Ailgylchu a Gwastraff
- Tai
- Safonau Masnach
- Treth Gyngor neu Drethi Busnes



monmouthshire  
sir fynwy



### RHIFAU CYSWLLT DEFNYDDIOL

Argyfyngau:

☎ 999

Cyngor Sir Fynwy:

☎ 01633 644644

Heddlu Gwent:

☎ 101/ 01633 838111

Gwasanaeth Tân ac  
Achub De Cymru:

☎ 01443 232000

Argyfyngau Nwy:

☎ 0800 111 999

Rhif Argyfwng Toriad

Pŵer:

☎ 105

Argyfyngau Dŵr a  
Charthffosiaeth:

☎ 0800 052 0130

Cymdeithas Yswirwyr  
Prydain:

☎ 020 7600 3333

### AM FWY O WYBODAETH

Cyfoeth Naturiol Cymru:

☎ 0300 065 3000

[naturalresources.wales/  
flooding](https://naturalresources.wales/flooding)

Fforwm Llifogydd  
Cenedlaethol

☎ 01299 403055

[nationalfloodforum.  
org.uk](https://nationalfloodforum.org.uk)

Cyngor Ar Bopeth:

☎ 0800 702 2020

[citizensadvice.org.uk](https://citizensadvice.org.uk)

Lechyd Cyhoeddus  
Cymru:

☎ 02920 227744

[phw.nhs.wales](https://phw.nhs.wales)

FloodRe:

☎ 02920 227744

[floodre.co.uk](https://floodre.co.uk)

The Blue Pages –  
Cyfeiriadur Llifogydd:

[bluepages.org.uk](https://bluepages.org.uk)

Trustmark:

☎ 0333 555 1234

[trustmark.org.uk](https://trustmark.org.uk)



monmouthshire  
sir fynwy



## A YW EICH CARTREF YN PROFI LLIFOGYDD

Mae'r daflen hon ar gyfer trigolion  
Sir Fynwy y mae eu cartrefi mewn  
perygl o lifogydd.

## YDW I MEWN PERYGL O LLIFOGYDD?

Gall llifogydd ddigwydd am sawl rheswm, gan gynnwys:

- Glaw trwm am gyfnod hir
- Llanw uchel yn gorlifo
- Ceuffosydd wedi'u blocio
- Draeniau'n cael eu blocio

## GWEITHREDWCH NAWR

1. Gwiriwch y perygl o lifogydd i'ch eiddo drwy ymweld â gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru: [Cyfoethnaturiol.cymru/llifogydd](http://Cyfoethnaturiol.cymru/llifogydd)
2. Cofrestrwch i gael rhybuddion llifogydd am ddim drwy ffonio Floodline ar: **0345 988 1188**.
3. Gwiriwch eich polisi yswiriant ac ychwanegwch yswiriant os oes angen. Ewch i: [floodre.co.uk](http://floodre.co.uk) am gymorth a chyngor

## PARATOI AR GYFER LLIFOGYDD

- Nodwch sut i ddiffodd eich cyflenwadau nwy, trydan a dŵr.
- Cadwch restr o rifau ffôn defnyddiol, gan gynnwys eich manylion yswiriant a rhif y polisi.
- Paratowch becyn brys.
- Meddyliwch am ba eitemau o werth personol y gallwch eu symud nawr, fel albymau lluniau a dogfennau pwysig.
- Meddyliwch am yr hyn y byddech chi am ei symud i ddiogelwch yn ystod llifogydd.
- Ystyriwch offer amddiffyn rhag llifogydd dros dro, fel gathiau llifogydd, gorchuddion plastig i selio brics aer, bagiau tywod a byrddau llifogydd.
- Ystyriwch fesurau gwytnwch llifogydd eiddo. I gael gwybodaeth am baratoi a diogelu eich eiddo, ewch i: [naturalresources.wales](http://naturalresources.wales)
- Ewch i dudalennau rheoli perygl llifogydd Cyngor Sir Fynwy yn: [monmouthshire.gov.uk/cy/flood-risk-management](http://monmouthshire.gov.uk/cy/flood-risk-management)

## OS RHAGWELIR LLIFOGYDD

- Gwrandewch am rybuddion tywydd garw a llifogydd sydyn ar y radio a'r teledu. Ffoniwch Floodline ar: **0345 988 1188** am wybodaeth am lifogydd afonydd.
- Gwiriwch lefelau afonydd a data glawiad ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Symudwch anifeiliaid anwes, cerbydau, pethau gwerthfawr, eitemau sy'n bwysig yn emosiynol a dogfennau pwysig i fan diogel.
- Paratowch eich cyflenwad o fagiau tywod. Efallai y bydd Cyngor Sir Fynwy yn gallu darparu bagiau tywod yn ystod argyfwng, er y gallech ddewis cadw eich cyflenwad eich hun.
- Rhewch wybod am broblemau draenio difrifol i Ganolfan Gyswilt Cyngor Sir Fynwy. Mae hyn yn cynnwys ffosydd neu geuffosydd wedi'u blocio a dŵr sefydlog nad yw'n draenio'n iawn.

## PARATOWCH BETHAU BRYS PETHAU I'W CYNWYS:

- Dogfennau yswiriant Rhifau ffôn pwysig
- Fflachlamp a batris sbâr
- Radio cludadwy
- Ffôn symudol
- Pecyn cymorth cyntaf a meddyginiaeth hanfodol
- Dŵr potel
- Bwyd nad yw'n ddarvoudus
- Blancedi a dillad cynnes
- Pecyn golchi a nwyddau ymolchi hanfodol
- Hanfodion i blant, gynnwys llaeth, bwyd babanod a gan chewynnau
- Arian parod brys
- Camera i gofnodi difrod at ddiobenion yswiriant
- Esgidiau Wellington, menig rwber a dillad dwrglos



## YN YSTOD LLIFOGYDD

- Symudwch eich teulu a'ch anifeiliaid anwes i fyny'r grisiau.
- Gwiriwch fod aelodau absennol o'ch cartref yn ddiogel.
- Daliwch ati i wrando ar radio a theledu lleol am ddiweddariadau.
- Arhoswch yn eich eiddo, os yw'n ddiogel, nes bod y gwasanaethau brys yn cynghori fel arall neu nes bod y dŵr llifogydd wedi cilio.
- Peidiwch â cherdded na gyrru trwy ddŵr llifogydd sy'n llifo.
- Osgowch gyswilt â dŵr llifogydd. Golchwch eich dwylo'n drylwyr os ydych chi'n ei gyffwrdd.

## OS OES RHAID I CHI WACŴU

- Bydd y gwasanaethau brys yn dweud wrthyh os oes angen i chi adael eich cartref er eich diogelwch. Dilynwch eu cyfarwyddiadau'n ofalus.
- Efallai yr hoffech aros gyda theulu neu ffrindiau. Os nad yw hyn yn bosibl, darperir llety brys mewn canolfan orffwys nes y gallwch ddychwelyd adref.
- Darperir cludiant os oes angen.
- Os ydych yn aros gyda theulu neu ffrindiau, rhewch wybod i'r heddlu fel y gellir cadw golwg ar ble'r ydych chi.

### Os oes amser:

- Diffoddwch y cyflenwadau, trydan, nwy a dŵr.
- Datgysylltwch gyfarpar.
- Clowch yr holl ddrysau a ffenestri.
- Ewch ag unrhyw feddyginiaeth hanfodol gyda chi.
- Peidiwch â dychwelyd adref nes i chi gael gwybod ei fod yn ddiogel.

Mae gan gyngor sir Fynwy daflen ar wahân ar gyfer trigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan lifogydd.

**Cysylltwch â'r tîm rheoli llifogydd drwy ganolfan gyswilt y cyngor am gopi.**